



# Ffederasiwn Ysgolion Casmael a Llanychllwydog



## Adroddiad Blynyddol i Rieni/ Annual Report to Parents

Blwyddyn Academaidd/Academic Year 2022 -2023

### GAIR GAN GADEIRYDD Y LLYWODRAETHWYR/ A WORD FROM THE CHAIR OF GOVERNORS

Mae'n bleser gennyf gyflwyno Adroddiad Llywodraethwyr Ffederasiwn Ysgolion Casmael a Llanychllwydog i chi'r rhieni. Pan sefydlwyd y Ffederasiwn rhyw ddeunaw mis yn ôl roedd Cofid yn parhau i achosi rhai problemau, yn enwedig i unrhyw weithgareddau ychwanegol a oedd yn arfer cymerid lle. Erbyn hyn, gyda llacio cyfyngiadau Cofid, mae'r prysurdeb arferol wedi dychwelyd.

Mae darllen y llythyr wythnosol i chi'r rhieni yn amlinellu'r holl weithgareddau sydd yn digwydd yn rheolaidd ar y ddau safle yn adlewyrchiad o hyn. Mae'r Urdd yn enghraifft dda o faint o weithgareddau sydd yn digwydd naill a'i ar y Llwyfan, y maes chwarae neu yn y celfyddydau.

Mae'r ddau safle yn parhau i ddarparu Addysg sydd yn briodol i'w Ysgol, mae yna gyd-weithio rhyngddynt yn cymryd lle pan fo hun yn briodol ac yn fuddiol i'r disgyblion.

Carwn gymryd y cyfle i ddiolch i'r disgyblion am eu brwdfrydedd, diolch hefyd i chi fel rhieni am eich cefnogaeth ac ni allwn anghofio chwaith y staff a'i brwdfrydedd heintus.

Yn ddiffuant, Russel Evans.

It is a pleasure to present the Annual Report from the Governing Body of the Federation of Ysgolion Casmael and Llanychllwydog to you the parents. When the federation was formed eighteen months ago, Covid still cast a cloud over some of the activities associated with the school, especially the extracurricular activities. The easing of Covid restrictions has allowed the return of these activities and makes both schools very busy places.

This is highlighted as we read the weekly letters to parents which outline the coming week's activities. The Urdd is a good example of the extra activities offered to our pupils, with activities on stage, the sports field and in arts and crafts.

Whilst both sites continue to provide a unique style of education, there are also occasions when staff and pupils work together if this is considered to be more beneficial.

I would like to take this opportunity to thank the pupils for their enthusiasm, you the Parents for your support and not least the school staff for their infectious enthusiasm.

Sincerely, Russel Evans.

### Gweledigaeth ar gyfer y Ffederasiwn/ Federation Vision

I ddarparu amgylchedd dysgu diogel, ysgogol a maethlon, lle mae unigolion yn cyrraedd eu potensial llawn; lle mae'r iaith Cymraeg a'r dreftadaeth Gymreig yn rhan annatod o fywyd bob dydd; lle mae'r ysgolion a'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu wedi'u hintegreiddio'n llawn, a'r holl gyfleoedd sydd ar gael ein hardal leol yn cael eu gwireddu'n llawn.

**To provide a safe, stimulating, nurturing learning environment, where individuals reach their full potential; where the Welsh language and culture is celebrated and forms an integral part of daily life; where schools and the communities they serve are fully integrated, and all the opportunities afforded by learning in our local area are fully realised.**

#### Bydd y ffederasiwn yn pwysleisio'r canlynol:

- Llythrennedd - darllen, ysgrifennu, siarad a gwrando yn y Gymraeg a'r Saesneg.
- Rhifedd
- Sgiliau personol a chymdeithasol da
- Gwybodaeth wyddonol a'r gallu i weithio fel gwyddonydd.
- Y defnydd o dechnoleg gwybodaeth, cyfathrebu.
- Ymddygiad dysgu da.
- Sgiliau meddwl.
- Cysylltiadau â'r Gymuned.
- Ehangu cyfleoedd i'r disgyblion
- Cwricwlwm eang, cytbwys a chyffrous i'r holl ddisgyblion
- Safonau addysgu a dysgu uchel

#### The federation will emphasise the following:

- Literacy- reading, writing, speaking and listening in English & Welsh.
- Numeracy
- Good personal and social skills
- Scientific knowledge and the ability to work as a scientist.
- The use of information, communication technology.
- Good learning behaviour.
- Thinking skills.
- Links with the Community.
- Broadening of opportunity for the pupils
- A broad, balanced and exciting curriculum for all pupils
- High standards of teaching and learning

Cysylltwch â'r Ysgol os hoffech alw cyfarfod gyda'r Llywodraethwyr i drafod yr adroddiad yma os gwelwch yn dda./  
Please telephone school if you would like to request a meeting with Governors to discuss this Annual Report.

### Ffederasiwn Ysgolion Casmael a Llanychllwydog

Governor Type	Governor Name	Start Date	End Date
Cymunedol / Ychwanegol / Additional Community	Mr Haydn Williams	31/01/2022	30/01/2026
Cymunedol / Community	Mrs Marian Phillips	09/12/2021	09/12/2025
Cymunedol / Community	Mrs Bethan Vaughan	09/12/2021	08/12/2025
Cymunedol / Community	Mr Martin Batty	09/12/2021	08/12/2025
Cymunedol / Community	Ms. Gwenno Eynon	10/07/2023	09/07/2027
Prifathro / Headteacher	Mrs Amanda Lawrence	07/01/2022	
Awdurdod Lleol / Local Authority	Mr Russell Evans JP	22/11/2021	21/11/2025
Awdurdod Lleol / Local Authority	Cllr Delme Harries	24/10/2022	23/10/2026
Rhiant / Parent	Mrs Glesni Jenkins-Evans	01/03/2023	28/02/2027
Rhiant / Parent	Mr Michael Williams	22/11/2021	21/11/2025
Rhiant / Parent	Mrs Sara Grim	22/11/2021	21/11/2025
Rhiant / Parent	Mrs Kayleigh Davies	22/11/2021	21/11/2025

#### Election of Parent Governors

Arrangements are made for the election of parent governors one school term before a parent governor's term of office expires, or on receipt of a resignation. Information about the election is sent to parents via pupil post.

#### Etholiad Rhiant-lywodraethwyr

Gwneir trefniadau ar gyfer ethol rhiant-lywodraethwyr un tymor cyn i gyfnod swydd rhiant-lywodraethwr ddod i ben, neu pan fydd rhiant-lywodraethwr yn ymddiswyddo. Anfonir gwybodaeth ynghyd â'r etholiad drwy law'r disgyblion.

### Cyfrwng Llywodraethu'r Ffederasiwn/ Instrument of government for the Federation 2023

Rhieni Lywodraethwyr/ Parent governors	4 ( 2 from each school)
Awdurdod Lleol/ Local Authority	2
Athro/Teacher	2
Staff	1
Pennaeth/Headteacher	1
Llywodraethwyr Cymunedol/ Community Governors	4 (+ 1 additional community governor appointed from community council)
Cyfanswm/Total	15

Mae'r Corff Llywodraethu yn gyfrifol am sicrhau bod yr ysgol yn rhedeg yn effeithiol, yn gweithredu o fewn y fframwaith a osodwyd gan ddeddfwriaeth ac y cydymffurfir â pholisïau Awdurdod Lleol (ALI) a Llywodraeth Cymru. Mae corff llywodraethu ffederasiwn Ysgol Casmael ac Ysgol Llanychllwydog yn cwrdd o leiaf pob tymor i drafod yr ysgolion a'u blaenoriaethau. Eu prif nod yw sicrhau bod pob disgybl yn y ffederasiwn yn cael cyfleoedd ac yn cael eu herio i gyflawni eu potensial. Yn ystod y cyfarfodydd, mae staff yn cyflwyno gwybodaeth am y cynllun datblygu ysgol ac mae llywodraethwyr yn gofyn cwestiynau heriol o ran diben gweithgareddau a'u heffaith. Mae'n rôl wirfoddol ac rydym yn diolch i'r holl lywodraethwyr am eu hymrwymiad.

#### Beth yw Llywodraethwr?

Mae llywodraethwr yn rhywun sy'n :

- wirfoddolwr;
- diddordeb mewn dysgu, addysgu a phlant;
- cynrychioli pobl yn y gymuned leol a staff yr ysgol;
- rhan o dîm sy'n derbyn cyfrifoldeb am bopeth y mae ysgol yn ei wneud;
- ag amser i ymrwymo i gyfarfodydd ac achlysuron eraill pan fydd angen;
- yn barod i ddysgu;
- yn gallu bod yn gyfaill sy'n cefnogi ac yn herio'r ysgolion drwy gadw golwg ar sut mae'r ysgol yn gweithio a'r safon a gyflawnir; yn gweithredu fel cyswllt rhwng rhieni, y gymuned leol a'r ysgol.

*The Governing Body has a responsibility for seeing that the school is run effectively, acting within the framework set by legislation and that the policies of the Local Authority (LA) and the Welsh Government (WG) are adhered to. The governing body of the federation of Ysgol Casmael and Ysgol Llanychllwydog meets at least once a term to discuss the schools and their priorities. Their main aim is to ensure that all pupils in our federation are given opportunities and challenged to reach their potential. During the meetings, staff present information about the school development plan and governors ask challenging questions as to the purpose of activities and their effect. It is a voluntary role, we thank all of the governors for their commitment.*

#### What is a Governor?

A governor is someone who:

- is a volunteer.
- cares about learning, teaching, and children
- represents people in the local community and the staff of the school.
- is part of a team which accepts responsibility for everything a school does.
- has time to commit to meetings and other occasions when needed.
- is willing to learn.
- is able to act as a friend who supports and challenges the schools by casting a critical eye upon how the schools work and the standards they achieve; acts as a link between parents, the local community and the school.

Cysylltwch â'r Ysgol os hoffech alw cyfarfod gyda'r Llywodraethwyr i drafod yr adroddiad yma os gwelwch yn dda./  
Please telephone school if you would like to request a meeting with Governors to discuss this Annual Report.

**Cynllun Datblygu Ysgol 2022-2023/ School Development Plan 2022-23**  
**Crynodeb o'n blaenoriaethau/A summary of our priorities**

M A/IA	<u>Blaenoriaethau CDY 2022-23/</u> <u>SDP Priorities 2022-23</u>	Tystiolaeth/ evidence	Athro arweiniol/ Lead member of staff	Llywodraethwr cysylltiedig/ allocated governor
1	<b>Blaenoriaeth 1/Objective 1 - Sicrhau cynnydd, cyfoeth a chywirdeb medrau llafar disgyblion ar draws y camau cynnydd.</b> <i>Ensure pupils' progress in the richness and accuracy of their oracy skills across each of the progression steps .</i>	Gwaelodlin llafar - asesu yn erbyn yr hen lefelau/Baseline assessment using old level descriptors. Holiadur Siarter Iaith/Language charter questionnaires. Teithiau dysgu/Learning Walks.	M.F/E.P	S.G/M.P
1	<b>Blaenoriaeth 2 -Gwella medrau mathemateg y pen disgyblion, gan ganolbwyntio ar y berthynas rhwng rhifau.</b> <i>To improve pupils' mental maths skills, concentrating on the relationship between numbers.</i>	Profion gweithdrefnol/ Procedural tests. Profion Rhifau Rhagorol	R.E/S.J	M.B/B.V
2,3 a 4	<b>Blaenoriaeth 3 - Cynllunio profiadau cyfoethog er mwyn bodloni gofynion yr ystod lawn o ddysgwyr.</b> <i>Ensure rich learning experiences meet the needs of all learners.</i>	Dadansoddiad o ddata presenoldeb/Analysis of Attendance data. Holiadur ELSA questionnaire. Data RADY.	S.G/J.J	M.W/H.W
2 a 4	<b>Blaenoriaeth 4 - Adolygu a mireinio prosesau adborth ac asesu.</b> <i>Revisit, revise and refine feedback and assessment procedures.</i>	Holiaduron i rhieni, staff a disgyblion/Parent, staff and pupil questionnaires	A.L	R.E/M/P
5	<b>Blaenoriaeth 5 - Arweinyddiaeth-adolygu dyletswyddau a chyfrifoldebau staff ac arweinwyr ar draws y ffederasiwn.</b> <i>Leadership - review the roles and responsibilities of staff and leaders across the federation.</i>	Angen diweddarau'r strwythur staffio/Staffing structure needs updating.	Pennaeth	Cadeirydd

## Strwythur Staffio/Staffing Structure 2022-23

Staffio/ Staffing	Casmael/Puncheston	Llanychllwydog
	<b>Pennaeth/Head teacher - Mrs. Lawrence</b>	
	<b>Athrawon/Teachers:</b> Bl. 5 a 6 - Mrs. Jones (0.6) Bl.3 a 4 - Mrs. George (0.8, ALNCO) D, 1 a 2 - Mrs. Phillips - Arweinydd Safle Derbyn - Mrs. James Mrs.Hughes - (0.2 dros dro)	<b>Athrawon/Teachers:</b> Bl.3-6 - Mrs. Francis (0.8) -Arweinydd Safle/Base Leader) D, 1 a 2 - Mrs. Evans (0.8) Mrs. Griffiths - (0.2,ALNCO) Mrs. Hughes - (0.2)
	<b>Cynorthwywyr/Classroom support:</b> Mrs. C. James - 0.6 Mrs. Snell - (Grant RRS - dros dro)	<b>Cynorthwy-ydd/Classroom Support</b> Miss. Reed - 1:1
	<b>Gweinyddol/Admin - Mrs. Beynon</b>	<b>Gweinyddol/Admin -Mrs.Beynon</b>
	<b>Cogyddes/Cook: Mrs Williams</b>	<b>Cogyddes/Cook: Mrs. Williams</b>
	<b>Goruchwyliwr Cinio/Clai/Gofalu/Clwb Brecwast/ Lunchtime Supervisor/Cleaner/Caretaker/ Breakfast Club: Mrs. Miles Goruchwyliwr Cinio/Clwb Brecwast - Ms Kate Williams</b>	<b>Cogyddes y safle/ Cook in charge: Mrs. Barrington Goruchwyliwr Cinio/Lunchtime Supervisor: Miss Reed. Clai/Gofalu//Cleaner/Caretaker: Mrs. Sapsford</b>
	<b>Gwasanaeth Cerddoriaeth/Music Service Tuition: Mrs. Phillips, Miss Davies.</b>	<b>Gwasanaeth Cerddoriaeth/Music Service Tuition: Miss Davies</b>

## Presenoldeb/Attendance 2022-23

	Casmael/Puncheston	Llanychllwydog
<b>Ar y gofrestr/Number on roll (1.7.2023)</b>	79	25
<b>Presenoldeb/Attendance 22/23</b>	94.8%	92.6%
<b>Absenoldebau heb ganiatad/Unauthorised 22/23</b>	0.7%	0.5%
<b>Presenoldeb/Attendance 18/19 (Pre Covid for comparison)</b>	96.8%	94.5%
<b>Targed Presenoldeb/Attendance Target</b>	95%	94%

Mae absenoldeb yn cael effaith niweidiol ar ein canrannau cyffredinol. Mae gennym system cyfrifiadur ysgol cyfan i fonitro presenoldeb a phrydlondeb disgyblion. Mae'r presenoldeb yn codi a gostwng o flwyddyn i flwyddyn. Rydym yn argymhell nad yw rhieni yn cymryd gwyliau yn ystod tymor yr ysgol oherwydd y gall gael effaith andwyol ar addysg plentyn pan fydd yn colli gwersi pwysig. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn nodi nad yw gwyliau yn ystod tymor yn hawl a dylid cytuno gyda'r Pennaeth. "Dylid cadw absenoldeb awdurdodedig o dan y disgrisiwn hwn i'r lleiafswm. Ni ddylid ystyried deng niwrnod fel y norm. Os nad yw ysgol wedi caniatáu absenoldeb a bod y disgybl yn mynd ar wyliau, mae'r absenoldeb yn un anawdurdodedig" - Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Gwnewch yn siŵr eich bod yn cysylltu â'r ysgol i roi rheswm pam bod eich plentyn yn absennol.

**Absences have an adverse effect on our overall percentages.**

**We have a whole school computerised system to monitor pupils' attendance and punctuality. We do recommend that parents do not take holiday during term time because it can have a detrimental effect on a child's education when important lessons are missed. The Welsh Assembly Government points out that holidays in term time are not a right and should be agreed by the Head teacher. "Absences authorised under this discretion should be kept to a minimum. Ten school days should not be regarded as the norm. If a school does not agree absence and the pupil goes on holiday, the absence is unauthorised" - Welsh Assembly Government.**

**Please ensure that you contact the school to give a reason for your child being absent.**

Cysylltwch â'r Ysgol os hoffech alw cyfarfod gyda'r Llywodraethwyr i drafod yr adroddiad yma os gwelwch yn dda./

**Please telephone school if you would like to request a meeting with Governors to discuss this Annual Report.**





## Ffederasiwn Ysgolion Casmal a Llanychllwydog – Crynodeb o'n Cwricwlwm i Gymru

*Datblygu dwygylliant o ysbrydoliaeth, tanio angerdd am ddyysgu...*

Mae ein cwricwlwm wedi'i gyd-greu trwy ymgysylltu â'r holl randdeiliaid, a bydd yn bodloni'r gofynion canlynol:

### Ein gwledigaeth

Bydd ein dysgwyr yn iach ac yn hyderus, yn ddysgwyr gydol oes chwillfrydig a dyfeisgar sy'n cymryd rhan mewn materion byd-eang ac yn cyfrannu atynt, ac yn ymarfer gwerthoedd craidd ein ffederasiwn: caredigrwydd, Cymreictod, cyfrifoldeb a cheisio gorau glas.

Bydd ein dysgwyr yn meithrin hyder yn eu hunaniaethau wrth iddynt archwilio, arddangos, gwneud penderfyniadau a rhoi gwerth ar sgiliau a gwybodaeth a fydd yn eu cynorthwyo i fod yn ddinasyddion creadigol, moesegol, galluog a gwybodys yn eu cymunedau.

### Fel ffederasiwn, yn fras, dyma ein gwerthoedd:

- Parch ac Ymddiriedaeth
- Llesiant a Gofal
- Hapusrwydd a Mwynhad
- Cadernid a Hyder
- Cymru a Chymreictod
- Cymuned a Chynefin
- Cymryd risgiau ac Arloesi
- Cymorth a Chydweithio

Fodd bynnag, o fewn ein ffederasiwn, mae pob ysgol hefyd yn canolbwyntio ar eu gwerthoedd unigol eu hunain i gefnogi a hyrwyddo agweddau cadarnhaol tuag at ddinasyddiaeth gydol oes.

### Ein cwricwlwm cynhwysol

Bydd ein cwricwlwm yn codi dyheadau pob dysgwr. Yn ein hysgol rydym wedi ystyried y modd y bydd pob dysgwr yn cael ei gefnogi i wireddu'r pedwar diben ac i wneud cynnydd. Rydym wedi ystyried ein darpariaeth ADY a'r modd y byddwn yn bodloni anghenion grwpiau gwahanol o ddysgwyr.

### Dysgu, Cynnydd ac Aseu

Bydd ein cwricwlwm yn cefnogi dysgu trwy gynllunio cyfleoedd dysgu sy'n tynnu ar yr [egwyddorion addysgegol](#).

Mae ein cwricwlwm, a ategir gan addysgu a dysgu effeithiol, yn galluogi dysgwyr i wneud cynnydd ystyrlon. Dros amser bydd ein dysgwyr yn datblygu ac yn gwella eu sgiliau a'u gwybodaeth. Mae ein cwricwlwm yn canolbwyntio ar ddeall yr hyn y mae'n ei olygu i wneud cynnydd mewn Maes neu ddisgyblaeth benodol, a'r modd y dylai dysgwyr ddyfnhau ac ehangu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth, eu sgiliau a'u galluoedd, a'u priodoleddau a'u tueddiadau, ac mae'n cael ei lywio gan y [Cod Cynnydd](#). Mae hyn yn ei dro yn cefnogi'r modd yr ydym yn mynd ati i [asesu](#), a'i ddiben yw llywio ein cynllunio ar gyfer dysgu yn y dyfodol.

Bydd asesu yn cael ei wreiddio fel rhan gynhenid o ddyysgu ac addysgu. **Bydd pob dysgwr yn cael ei asesu ar fynediad i'r ysgol.**

### Cymraeg a Saesneg

Fel ysgol cyfrwng Cymraeg bydd dysgu yn digwydd yn bennaf drwy gyfrwng y Gymraeg o'r dosbarth Derbyn ymlaen, bydd y Saesneg yn cael ei chyflwyno'n raddol. Yng ngham cynnydd 3, bydd hyd at 20% o'r addysgu drwy gyfrwng y Saesneg.

### Sgiliau trawsgwricwlaidd

Bydd ein cwricwlwm yn datblygu'r [sgiliau trawsgwricwlaidd gorfodol](#), sef llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol. Bydd ein cwricwlwm yn galluogi dysgwyr i ddatblygu cymhwysedd a gallu yn y sgiliau hyn a'u hymestyn a'u cymhwyso ar draws pob Maes. Bydd dysgwyr yn cael cyfleoedd ar draws y cwricwlwm i wneud y canlynol:

- datblygu sgiliau gwranddo, darllen, siarad ac ysgrifennu
- gallu defnyddio rhifau a datrys problemau mewn sefyllfaoedd bywyd go iawn
- bod yn hyderus yn eu defnydd o ystod o dechnolegau i'w helpu i weithredu a chyfathrebu'n effeithiol a gwneud synnwyr o'r byd

### Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn/Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau

Bydd ein hysgol yn hyrwyddo gwybodaeth a dealltwriaeth mewn perthynas â Rhan 1 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau, ymhlith y rheiny sy'n darparu'r addysgu a'r dysgu.

### Y pedwar diben

Y pedwar diben yw'r man cychwyn a'r dyhead ar gyfer cynllun cwricwlwm ein hysgol. Nod ein hysgol yw cefnogi ein dysgwyr i ddod yn:

- ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n barod i ddyysgu gydol eu hoes
- cyfranwyr mentrus a chreadigol, sy'n barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd gwaith
- dinasyddion egwyddorol a gwybodys yng Nghymru a'r byd
- unigolion iach a hyderus, sy'n barod i fyw bywydau llawn fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas

### Y datganiadau o'r hyn sy'n bwysig

Bydd ein cwricwlwm yn darparu cyfleoedd a phrofiadau i ddatblygu'r cysyniadau allweddol, yr wybodaeth a'r sgiliau fel y'u disgrifir yn y datganiadau o'r hyn sy'n bwysig ac yn unol â [Chod y Datganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig](#).

### Meysydd Dysgu a Phrofiad

Bydd ein cwricwlwm yn darparu profiadau dysgu trwy'r chwe Maes Dysgu a Phrofiad:

- Y Celfyddydau Mynegiannol
- Iechyd a Lles
- Y Dyniaethau
- Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu
- Mathemateg a Rhifedd
- Gwyddoniaeth a Thechnoleg

### Addysg Gyrfaoedd a Phrofiadau sy'n gysylltiedig â byd gwaith

Bydd ein cwricwlwm yn ymgorffori gyrfaoedd a phrofiadau sy'n gysylltiedig â gwaith ar gyfer ein holl ddysgwyr.

### Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb

Mae cwricwlwm ein hysgol yn coleddu'r arweiniad a geir yn y [Cod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb](#). Bydd gan ein darpariaeth Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb rôl gadarnhaol grymusol yn addysg ein dysgwyr, a bydd yn chwarae rhan hanfodol wrth eu cefnogi i wireddu'r pedwar diben trwy ddull ysgol gyfan. Helpu dysgwyr i feithrin a chynnal ystod o berthnasoedd, i gyd yn seiliedig ar ymddiriedaeth a pharch at ei gilydd, yw sylfaen Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb. Mae'r perthnasoedd hyn yn hanfodol i ddatblygiad llesiant emosiynol, cadernid ac empathi.

### Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg

Mae Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn ofyniad statudol yn Cwricwlwm i Gymru, ac mae'n ofodol i bob dysgwr rhwng 3 ac 16 oed.

**Nid oes hawl gan riant i wneud cais i dynnu plentyn yn ôl o Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn Cwricwlwm i Gymru.**

Gan fod Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn bwnc a bennir yn lleol, mae'r maes llafur y cytunwyd arno yn nodi'r hyn y dylid ei addysgu ym maes Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn yr awdurdod lleol, a bydd ein cwricwlwm yn adlewyrchu'r canllawiau hyn.

### Adolygu a mireinio

Bydd cwricwlwm ein hysgol yn cael ei adolygu'n barhaus er mwyn ymateb i allbynnau ymholi proffesiynol, anghenion newidiol y dysgwyr, a chyd-destunau ac anghenion cymdeithasol. Bydd yr adolygiadau'n ystyried barn rhanddeiliaid ac yn cael eu cymeradwyo gan y Corff Llywodraethu. Byddwn yn cyhoeddi crynodeb o'n cwricwlwm ac yn adolygu'r crynodeb os gwneir newidiadau i'r cwricwlwm yn ystod y broses adolygu.

Pennaeth : *AJ Lawrence* 1.09.2022

Cadeirydd llywodraethwyr: *M. R. King*

Dyddiad adolygu: Gorffennaf 2023



Cysylltwch â'r Ysgol os hoffech alw cyfarfod gyda'r Llywodraethwyr i drafod yr adroddiad yma os gwelwch yn dda./  
Please telephone school if you would like to request a meeting with Governors to discuss this Annual Report.



## The Federation of Puncteston and Llanochlwydog Schools - Our Curriculum for Wales Summary.

*Developing a culture of inspiration, igniting a passion for learning.*

Our curriculum has been co-constructed through engaging with all stakeholders and will meet the following requirements:

### Our vision

Our learners will be healthy and confident as curious and resourceful life-long learners, who participate in and contribute to the global world and practise the core values of the school: kindness, responsibility, Welshness and doing your very best.

Our learners will develop confidence in their identities as they explore, demonstrate, make decisions and value skills and knowledge that will support them to be creative, ethical, capable and informed citizens of their communities.

### Our values as a federation are broadly to promote:

- Respect and trust
- Wellbeing and Care
- Happiness and Enjoyment
- Resilience and confidence
- Wales and Welshness
- Community and Habitat
- Take risks and Innovate
- Support and Collaboration

However, within our federation, each school also focuses on their own individual values to support and promote positive attitudes towards lifelong citizenship.

### Our inclusive curriculum

Our curriculum will raise the aspirations for all learners. As a school we have considered how all learners will be supported to realise the four purposes and to progress. We have considered our ALN provision and how we will meet the needs of different groups of learners.

### Learning, Progression and Assessment

Our curriculum will support learning through designing learning opportunities that draw upon the [pedagogical principles](#).

Our curriculum, supported by effective teaching and learning enables learners to make meaningful progress. Over time our learners will develop and improve their skills and knowledge. Our curriculum focuses on understanding what it means to make progress in a given Area or discipline. The focus of learning is to help learners deepen and broaden their knowledge and understanding, skills and capacities, attributes and dispositions and is informed by the [Progression Code](#). This in turn supports our approach to [assessment](#), the purpose of which is to inform planning for future learning. Assessment will be embedded as an intrinsic part of learning and teaching. [All learners will be assessed](#) on entry to the school.

### Welsh and English

As a Welsh medium school learning will take place primarily through the medium of Welsh from Reception onwards, English will be introduced gradually. In progression step 3, up to 20% of the teaching will be through the medium of English.

### Cross curricular skills

Our curriculum will develop [the mandatory cross-curricular skills](#) of literacy, numeracy and digital competence. Our curriculum will enable learners to develop competence and capability in these skills and to extend and apply them across all Areas. Learners will be given opportunities across the curriculum to:

- develop listening, reading, speaking and writing skills
- be able to use numbers and solve problems in real-life situations
- be confident users of a range of technologies to help them function and communicate effectively and make sense of the world

### UNCRC / UNCRPD

Our school will promote knowledge and understanding of Part 1 of the UNCRC, and of the UNCRPD, among those who provide teaching and learning.

### CWRE

Our curriculum will incorporate careers and work related experiences for all of our learners.

### The four purposes

The four purposes are the starting point and aspiration for our school curriculum design. Our school aims to support our learners to become:

- ambitious, capable learners, ready to learn throughout their lives
- enterprising, creative contributors, ready to play a full part in life and work
- ethical, informed citizens of Wales and the world
- healthy, confident individuals, ready to lead fulfilling lives as valued members of society

### The statements of what matters

Our curriculum will provide opportunities and experiences to develop the key concepts, knowledge and skills as described in the statements of what matters and in line with the [Statements of What Matters Code](#).

### Areas of Learning and Experience

Our curriculum will provide learning experiences through the 6 AoLEs of:

- Languages, Literacy and Communication
- Expressive Arts
- Science and Technology
- Humanities
- Maths and Numeracy
- Health and Wellbeing

### RSE

Our school curriculum embraces the guidance in the [RSE Code](#). Our RSE provision will have a positive and empowering role in our learners' education and will play a vital role in supporting them to realise the four purposes as part of a *whole-school approach*. Helping learners to form and maintain a range of relationships, all based on mutual trust and respect, is the foundation of RSE. These relationships are critical to the development of emotional well-being, resilience and empathy.

### RVE

Religion, values and ethics (RVE) is a statutory requirement of the Curriculum for Wales and is mandatory for all learners from ages 3 to 16.

There is **no parental right** to request that a child is withdrawn from RVE in the Curriculum for Wales

As RVE is a locally determined subject, the agreed syllabus specifies what should be taught in RVE within the local authority and our curriculum will reflect this guidance.

### Review and refinement

Our school curriculum will be kept under review in order to respond to the outputs of professional inquiry, the changing needs of learners and social contexts and needs. The reviews will take into account the views of stakeholders and will be signed off by the Governing Body. We will publish a summary of our curriculum and revise the summary if changes to the curriculum are made during the review process.

Headteacher: *AJ Lawrence* 19.2022

Chair of Governors: *M R King*

Review date: July 2023



Cysylltwch â'r Ysgol os hoffech alw cyfarfod gyda'r Llywodraethwyr i drafod yr adroddiad yma os gwelwch yn dda./  
**Please telephone school if you would like to request a meeting with Governors to discuss this Annual Report.**

## Cymuned yr Ysgol

Mae'r ysgol yn hynod o ffodus fod ganddi gysylltiadau agos â'r gymuned ac rydym yn ddiolchgar iawn am gefnogaeth y gymuned i'r ysgol. Yn ystod 2019-21 mae'r plant wedi ymweld ag amryw le fel rhan o'u gwaith ysgol ac rydym wedi bod yn ffodus i gael amryw o ymwelwyr i'r ysgol sydd wedi cyfoethogi dealltwriaeth y plant o'r byd o'u cwmpas na fuasem ni ar ein pennau ein hunain wedi llwyddo rhoi iddynt.

## The School Community

The school is extremely fortunate in having a very close relationship with the community and we appreciate the support that the school receives. During the period 2022-23 year, pupils have visited a number of places as part of their school work and we have been able to welcome a number of visitors to the school. These visits have enriched the pupils' knowledge and understanding of the world about them, providing them with experiences, which we might not have been able to fulfil on our own.

## Dysgu ac Addysgu

Mae gennym berthynas waith ardderchog ar draws ysgolion y Ffederasiwn. Rydym yn parhau i weithio ar y cwricwlwm i Gymru. Addysgir y disgyblion mewn dosbarthiadau oedran cymysg a defnyddiwn amrywiaeth o ddulliau addysgu. Rydym yn rhannu arfer da ar draws y Ffederasiwn a chydag ysgolion eraill yn y clwstwr, a ledled sir Benfro. Rydym yn parhau i gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau monitro er mwyn datblygu arfer gorau a darparu'r gorau oll i ddisgyblion ein ffederasiwn.

## Teaching and Learning

We have an excellent working relationship within our Federation. We are continuing to work on the curriculum for Wales. Pupils are taught in mixed age classes and we use a variety of teaching methods. We share good practice through the Federation and with other schools in the cluster, and across Pembrokeshire. We continue to take part in a variety of monitoring activities in order to develop best practice and provide the very best for pupils in our federation.

## Yr Adeilad/ The Building

Mae'r rhan fwyaf o adeiladau'r ysgolion mewn cyflwr gweddol dda. Mae gan bob ysgol gyfleusterau toiledau da sy'n cael eu glanhau yn rheolaidd. Mae toiledau yn cael eu harchwilio yn ystod y dydd yn yr ysgol.

Most of the schools' buildings are in fairly good repair. Each school has good toilet facilities which are cleaned on a regular basis. Toilets are checked during the school day.



## Llais y plentyn/Pupil Voice

Mae gan y ddwy ysgol Gyngor Ysgol, Criw Cymreictod a Phwyllgor Eco/Iles gweithgar. Mae'r grwpiau yn cwrrd yn rheolaidd i drafod materion ysgol pwysig.



Both schools have an active School Council, Criw Cymraeg and an Eco/Wellbeing Committee. The groups meet on a regular basis to discuss important school issues.

## Polisiau'r Ysgol/School Policies

Mae holl bolisiau'r Ysgol yn cael eu diwygio yn ol yr angen, ac maent ar gael yn yr ysgol i unrhywun sy'n dymuno eu darllen. **All school Policies are revised regularly, these are available for viewing at the school.**



## Llawlyfr yr Ysgol/School Prospectus

Mae prospectws yr ysgol yn cael ei ddiweddarau'n flynyddol ac i'w weld ar y wefan, mae copiau hefyd ar gael gan yr ysgol. Os bydd angen un arnoch, neu os ydych yn gwybod am blentyn cyn oed ysgol yn yr ardal ac yn meddwl y byddai ei deulu yn gwerthfawrogi copi, yna gofynnwch. Gellir hefyd e-bostio copiau ar gais.

**The school prospectus is updated annually and can be found on the website, copies are also available from the school. If you should require one, or if you know of a pre-school child in the area whose family would appreciate a copy, then please ask. Copies can also be e-mailed on request.**

## Yr Iaith Gymraeg/The Welsh Language:

Rydym yn annog disgyblion i ddefnyddio'r Gymraeg yn y dosbarth ac o amgylch yr ysgol. Rydym yn gweithio'n agos gydag Ysgolion Uwchradd i sicrhau cyfnod pontio llyfn i bob disgybl er mwyn hwyluso parhad yn yr iaith Gymraeg. Mae'r ddwy Ysgol yn ysgolion cyfrwng Cymraeg sy'n cynnig addysg ddwyieithog.

**We encourage pupils to use the Welsh language in class and around school. We work closely with feeder Secondary Schools to ensure a smooth transition for all pupils and to facilitate continuity in the Welsh language. Both schools are Welsh medium schools offering bilingual education.**

Cysylltwch â'r Ysgol os hoffech alw cyfarfod gyda'r Llywodraethwyr i drafod yr adroddiad yma os gwelwch yn dda./ Please telephone school if you would like to request a meeting with Governors to discuss this Annual Report.



## Anghenion Dysgu Ychwanegol/Additional Learning Needs

Mae ein system ADY newydd yng Nghymru yn pwysleisio mwy o gydwethio, a phwysigrwydd darparu cymorth a gwybodaeth i sicrhau bod plant, eu teuluoedd a phobl ifanc yn cymryd rhan mor llawn â phosibl mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt. Mae angen cymorth ychwanegol ar blant a phobl ifanc ag ADY i ddysgu. Byddai hyn oherwydd eu bod yn ei chael hi'n anoddach dysgu na plant eraill o'r un oedran neu fod ganddynt anabledd sy'n golygu na allant ddefnyddio, neu ei chael yn anodd defnyddio, cyfleusterau ar gyfer dysgu yn yr ysgol. Gelwir y cymorth ychwanegol a roddir i blant ag ADY i'w helpu i ddysgu yn ddarpariaeth ddysgu ychwanegol (a elwir weithiau yn DDY). Rhaid cynnwys hyn mewn cynllun cymorth a elwir yn gynllun datblygu unigol (CDU). Ar draws y Ffederasiwn mae gennym lawer o blant ag anghenion amrywiol. Mae'r plant ar gamau amrywiol o'r broses ADY.

Our new ALN system in Wales emphasises increased collaboration, and the importance of providing support and information to ensure that children, their families and young people participate as fully as possible in decisions that affect them. Children and young people with ALN need extra support to learn. This would be because they find it harder to learn than other children of the same age or have a disability that means they cannot use, or find it difficult to use, facilities for learning in school. The extra support given to children with ALN to help them learn is called additional learning provision (sometimes called ALP). This must be written into a support plan called an individual development plan (IDP). Across the Federation we have many children with varied needs. The children are at various stages of the ALN process.

	No. of pupils Nifer y disgyblion	
	Llanychllywydog	Casmael
Universal provision - interventions provided by the school / Gweithredu gan yr Ysgol - ymyrraeth ar lefel ysgol	2	11
Universal provision plus - help from external services / Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy - ymyrraeth gan asiantaethau allanol	1	2
Statements / Datganiadau	1	0
Accessing provision at the Pupil Referral Unit/ Manteisio ar ddarpariaeth yn yr Uned Cyfeirio Disgyblion	0	0
On a Pastoral Support Plan (PSP) - part time at school, part time alternative provision Cynllun Cymorth Bugeiliol (PSP) - rhan-amser yn yr ysgol, darpariaeth amgen ran-amser	0	0

Mae rhaglenni Darpariaeth Ddysgu Gyffredinol y ffederasiwn yn cynnwys/Current Federation Universal Provision Includes :

Spelling Made Easy, Toe by Toe, Springboard Maths, ELSA, Mastering Memory, Hands on Literacy, Speech and Language programmes, Power of 1, Power of 2,

### Derbyn disgyblion

Datblygwyd y polisi mynediad presennol gan yr Awdurdod Addysg Leol. Rhaid cyfeirio pob cais am fynediad i'r AAL. Mae dyddiadau cau am geisiadau'n bodoli er mwyn galluogi ysgolion i gynllunio staffio blwyddyn o flaen llaw.

Rydym yn anelu i leihau/ddileu holl rwystrau mynediad i'r cwricwlwm a gweithio tuag at gyfranogiad llawn yn y gymuned ysgol i ddisgyblion a darpar ddisgyblion ag anabledd. Byddwn yn cydymffurfio â'r Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd ac:

- Ni fyddwn yn gwahaniaethu yn erbyn disgyblion anabl mewn dosbarthiadau derbyn, gwaharddiadau nac mewn darpariaeth addysg.
- Nid yn trin disgyblion anabl yn llai ffafriol.
- Cymryd camau rhesymol i osgoi rhoi plant ag anableddau dan anfantais.

Cysylltwch â'r ysgol os hoffech gopi o'n Cynllun Cydraddoldeb i Bobl Anabl

### The admission of pupils

The current admissions policy has been developed by the county. All admissions to the school have to be referred to the LEA. Deadlines for applications are in place to allow schools to plan staffing up to a year in advance.

We offer an inclusive school community and we aim to reduce/eliminate all barriers of access to the curriculum and work towards full participation for all pupils and prospective pupils with a disability. We will comply with the Disability Discrimination Act and will:

- Not discriminate against disabled pupils in admissions, exclusions or in the provision of education.
- Not treat disabled pupils less favourably.
- Take reasonable steps to avoid putting pupils with disabilities at a disadvantage.

Please contact school if you would like a copy of our Disability Equality Scheme.

Cysylltwch â'r Ysgol os hoffech alw cyfarfod gyda'r Llywodraethwyr i drafod yr adroddiad yma os gwelwch yn dda./  
Please telephone school if you would like to request a meeting with Governors to discuss this Annual Report.



## Trefniadau dyddiol/Daily organisation

### Term Dates:

**Autumn Term 2023 (76 school days)**

- **Designated staff training closure day:** Friday 1st September 2023
- **Term begins:** Monday 4th September 2023
- **Half term:** Monday 30th October 2023 - Friday 3rd November 2023
- **Term ends:** Friday 22nd December 2023
- **Christmas holidays:** Monday 25th December 2023 - Friday 5th January 2024

**Spring Term 2024 (50 days)**

- **Term begins:** Monday 8th January 2024
- **Half term:** Monday 12th February 2024 - Friday 16th February 2024
- **Term ends:** Friday 22nd March 2024
- **Easter holidays:** Monday 25th March 2024 - Friday 5th April 2024

**Summer Term 2024 (69 days)**

- **Designated staff training day:** Monday 8th April 2024
- **Term begins:** Tuesday 9th April 2024
- **Half term:** Monday 27th May 2024 - Friday 31st May 2024
- **Term ends:** Friday 19th July 2024

### Dyddiadau'r Tymhorau:

**Tymor yr Hydref 2023 (dyddiadau ysgol 76)**

- **Diwrnodau athrawon dan gyfarwyddyd:** Dydd Gwener 1 Medi 2023
- **Dechrau Tymor:** Dydd Llun 4 Medi 2023
- **Gwyliau hanner-tymor:** Dydd Llun 30 Hydref 2023 - Dydd Gwener 3 Tachwedd 2023
- **Diwedd Tymor:** Dydd Gwener 22 Rhagfyr 2023
- **Gwyliau'r Nadolig:** Dydd Llun 25 Rhagfyr 2023 - Dydd Gwener 5 Ionawr 2024

**Tymor Gwanwyn 2024 (dyddiadau ysgol 50)**

- **Dechrau tymor:** Dydd Llun 8 Ionawr 2024
- **Gwyliau hanner-tymor:** Dydd Llun 12 Chwefror 2024 - Dydd Gwener 16 Chwefror 2024
- **Diwedd Tymor:** Dydd Gwener 22 Mawrth 2024
- **Gwyliau'r Pasg:** Dydd Llun 25 Mawrth 2024 - Dydd Gwener 5 Ebrill 2024

**Tymor Haf 2024 (dyddiadau ysgol 69)**

- **Diwrnodau athrawon dan gyfarwyddyd:** Dydd Llun 8 Ebrill 2024
- **Dechrau Tymor:** Dydd Mawrth 9 Ebrill 2024
- **Gwyliau hanner-tymor:** Dydd LLun 27 Mai 2024 - Dydd Gwener 31 Mai 2024
- **Diwedd Tymor:** Dydd Gwener 19 Gorffennaf 2024

### Bwyta ac Yfed yn Iach

Mae'r ddwy ysgol yn hyrwyddo cynllun ysgolion iach llywodraeth Cymru ac yn ysgolion hybu iechyd. Anogir yr holl ddisgyblion nid yn unig i gadw eu hunain yn iach ond hefyd i sicrhau eu bod yn cymryd rhan mewn creu ysgol 'hapus'. Dylai pob plentyn dod â photel ddŵr i'r Ysgol yn ddydiol, anogir disgyblion i yfed digon o ddŵr yn ystod y dydd.

### Healthy Eating and Drinking

**Both schools promote the Welsh government healthy schools' scheme and are health promoting schools. All pupils are encouraged not only to keep themselves healthy but also to ensure they participate in creating a 'happy' school. Every child should bring a water bottle to school every day, pupils are encouraged to drink plenty of water during the day.**

### Amddiffyn a Diogelu Plant

Mae gan yr ysgol bolisi Amddiffyn Plant, Mrs Amanda Lawrence, Mrs Mererid Francis, Mrs. Elaine Phillips, Mrs. Sarah George a Mrs. Ruth Evans yw'r oedolion penodedig am Amddiffyn a Diogelu Plant. Mrs. Glesni Evans sy'n gyfrifol am ddiogelu plant ar ran y Llywodraethwyr. Amddiffyn plant rhag niwed yw cyfrifoldeb yr holl staff ysgol. Byddwn yn dilyn Canllawiau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan sydd wedi cael ei fabwysiadu gan ein Bwrdd Lleol am Ddiogelu Plant.

### Child Protection and Safeguarding

The school's Child Protection Policy is regularly updated, Mrs Amanda Lawrence, Mrs. Elaine Phillips, Mrs Mererid Francis, Mrs. Ruth Evans and Mrs. Sarah George are the appointed members of staff with responsibility for Child Protection. Mrs. Glesni Evans is the Governor representative for Child Protection. Protecting children from harm is the responsibility of all staff members at the school. We follow the All Wales Child Protection Procedures which have been adopted by the Local Child Protection Board.

Amserlen dyddiol/ Daily timetable	Ysgol Casmael	Ysgol Llanychllwydog
8.20—8.45 a.m	Clwb Brecwast/Breakfast Club	-
8.45 - 9.00 a.m	Plant i gyrraedd/Children Arrive	Plant i gyrraedd/Children Arrive
9.00 a.m	Cofrestr/Registration	Cofrestr/Registration
12.00	Cinio/Lunch	Cinio/Lunch
1.00p.m	Sesiwn Prynawn/Afternoon Session	Sesiwn Prynawn/Afternoon Session Sesiwn i blant rhan amser/Part timers to attend
3.15.p.m	Diwedd y dydd/End of school	Diwedd y dydd/End of school

Cysylltwch â'r Ysgol os hoffech alw cyfarfod gyda'r Llywodraethwyr i drafod yr adroddiad yma os gwelwch yn dda./  
Please telephone school if you would like to request a meeting with Governors to discuss this Annual Report.

### Amcanion a Llywyddiannau Chwaraeon

Mae'n fwriad gennym i sicrhau fod pob plentyn yn cael ac yn mwynhau chwaraeon, beth bynnag yw eu gallu. Trwy chwaraeon y mae plant yn dysgu hunan ddisgyblaeth, goddefgarwch a chyd-weithrediad. Ymdrechwn i sicrhau na fyddant yn teimlo'n annigonol, ac fe ganmolir eu hymdrech i wella'u perfformiad. Gobeithiwn y byddant yn sylweddoli pwysigrwydd chwaraeon ac ymarfer corff i'w hiechyd a'u datblygiad cyffredinol.

### Sporting Aims and Achievements

We aim to ensure that each child gains pleasure from sport, whatever their capabilities. Through sport, they learn self-discipline, tolerance and co-operation. We endeavour to ensure that no child is made to feel inadequate, and effort to improve his or her performance is praised. We hope they will realise the importance of sport and physical activity to their health and general wellbeing.

## Datganiad Cyllideb Ysgol Casmael 2022-23/ Puncheston School Resources Statement 2022-23

### SCHOOL RESOURCES AVAILABLE

INITIAL FUNDING (FORMULA FUNDING)	(351,067)
ADDITIONAL IN-YEAR FUNDING	(6,442)
OTHER FUNDING	-
<b>TOTAL FUNDING</b>	<b>(357,509)</b>
BALANCES B/F	(96,050)
<b>TOTAL FUNDS AVAILABLE</b>	<b>(453,559)</b>
LESS BUDGET EXPENDITURE	377,153
+/- OTHER RESERVES (E.G. INVEST TO SAVE, CONTRIBUTION TO CAPITAL FUND)	(800)

<b>Y/E RESOURCE AVAILABLE - BALANCE C/F (SURPLUS "-" / DEFICIT "+")</b>	<b>(77,205)</b>
---	-----------------

## Datganiad Cyllideb Ysgol Llanychllwydog 2022-23/ Llanychllwydog School Resources Statement 2022-23

### SCHOOL RESOURCES AVAILABLE

INITIAL FUNDING (FORMULA FUNDING)	(167,353)
ADDITIONAL IN-YEAR FUNDING	(2,687)
OTHER FUNDING	-
<b>TOTAL FUNDING</b>	<b>(170,040)</b>
BALANCES B/F	(24,592)
<b>TOTAL FUNDS AVAILABLE</b>	<b>(194,632)</b>
LESS BUDGET EXPENDITURE	172,729
+/- OTHER RESERVES (E.G. INVEST TO SAVE, CONTRIBUTION TO CAPITAL FUND)	(268)

<b>Y/E RESOURCE AVAILABLE - BALANCE C/F (SURPLUS "-" / DEFICIT "+")</b>	<b>(22,170)</b>
---	-----------------



Cysylltwch â'r Ysgol os hoffech alw cyfarfod gyda'r Llywodraethwyr i drafod yr adroddiad yma os gwelwch yn dda./  
**Please telephone school if you would like to request a meeting with *Governors* to discuss this Annual Report.**